

# Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei dynnu.**

Nid yw'r cyhoeddiad hwn bellach yn gyfredol.



# A allech chi redeg Clwb Gwaith?

jobcentreplus  
canolfanbydgwaith

Department for Work and Pensions  
Adran Gwaith a Phensiynau

# Cynnwys

<b>A allech chi redeg Clwb Gwaith?</b>	<b>2</b>
<b>Sut galla i sefydlu Clwb Gwaith?</b>	
1. Dod o hyd i leoliad	3
2. Dechrau arni	3
3. Paratoi rhaglen o weithgareddau	4
4. Cael help gan sefydliadau a gwirfoddolwyr eraill	6
5. Paratoi cynllun marchnata lleol	7
6. Dod o hyd i aelodau drwy rwydweithiau eraill	7
7. Cynnal y Clwb Gwaith	7
<b>Ble i gael rhagor o help?</b>	<b>8</b>

## Gwybodaeth gyfreithiol

Mae Clybiau Gwaith yn sefydliadau preifat ac yn gyfrifol am y canlynol:

- unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r broses o'u sefydlu a'u cynnal
- unrhyw faterion neu gwynion am y Clwb Gwaith
- sicrhau bod y Clwb Gwaith yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol, megis y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data
- cynnal safonau iechyd a diogelwch unrhyw Glwb Gwaith
- cost am unrhyw wiriadau, megis gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB).

Nid yw DWP na'r Ganolfan Byd Gwaith yn atebol am unrhyw faterion sy'n codi o Glwb Gwaith.

Canllaw yn unig yw'r ddogfen hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Rydym wedi ceisio sicrhau bod y wybodaeth yn gywir ym mis Rhagfyr 2010.

Mae'n bosibl y bydd rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i gorsymleiddio, neu'n dod yn llai cywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.

# A allech chi redeg Clwb Gwaith?

**Os ydych yn ymrwymedig i gefnogi eich cymuned ac yn teimlo y gallech chwarae rôl wrth helpu pobl leol sydd allan o waith, efallai mai 'gallwn' yw'r ateb.**

Os ydych o'r farn bod gennych chi neu'ch sefydliad y sgiliau a'r profiad perthnasol i helpu pobl yn ôl i'r gwaith, yna gallech sefydlu Clwb Gwaith. Efallai eich bod wedi bod yn ddi-waith eich hun ac wedi dychwelyd i'r farchnad lafur leol yn ddiweddar neu efallai bod gan eich sefydliad brofiad o gefnogi pobl sydd yn y sefyllfa honno?

Beth bynnag y credwch y gallech ei gyfrannu, mae cymryd rhan mewn Clwb Gwaith lleol yn cynnig y cyfle perffaith i rannu eich profiad a chefnogi eich cymuned. Mae rhannu dealltwriaeth ac adnoddau lleol yn ffordd wych o helpu pobl i mewn i waith.

## Beth yw Clwb Gwaith?

Gall Clybiau Gwaith fod yn wahanol iawn i'w gilydd, ond yn y bôn, maent yn darparu lle i bobl ddi-waith gyfarfod, cyfnewid sgiliau, rhannu profiadau, dod o hyd i gyfleoedd, meithrin cysylltiadau a chael cymorth i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith. Ni fydd unrhyw ddau glwb gwaith yr un fath oherwydd dylent adlewyrchu anghenion yr aelodau a'u cymuned.

## Pam y dylwn sefydlu Clwb Gwaith?

Byddech yn helpu pobl leol i ddod o hyd i waith a gallech gael effaith gadarnhaol iawn ar eu bywydau hwy ac eraill drwy helpu eich cymuned leol i ddod yn fwy llewyrchus. Drwy roi cyn lleied â chwpl o oriau'r wythnos, gallech helpu pobl i weithio tuag at annibyniaeth ariannol drwy feithrin eu hyder a gwella eu cyfleoedd o gael swydd.

# Sut galla i sefydlu Clwb Gwaith?

**Dylai Clybiau Gwaith ddiwallu anghenion pobl ddi-waith yn y gymuned. Bydd yr anghenion hyn yn amrywio o un ardal i'r llall a gallech ystyried canolbwyntio ar angen penodol, h.y. cefnogi ceiswyr gwaith iau, gan gynnwys y rhai sy'n gadael yr ysgol a'r rheiny sydd newydd ddechrau chwilio am waith. Gallai cyfuno arbenigedd presennol mewn cymuned helpu i nodi anghenion lleol ac arwain at ddatblygu Clwb Gwaith llwyddiannus.**

Gallai gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau lleol eraill arwain at ddatblygu model arloesol ar gyfer Clwb Gwaith lleol a all gael effaith gadarnhaol yn y gymuned.

## **Beth sy'n rhaid i mi ei wneud?**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyngor sylfaenol ar rai o'r camau y gallech eu cymryd i sefydlu Clwb Gwaith lleol effeithiol. Gan weithio gyda grwpiau a sefydliadau eraill yn y gymuned, byddwch yn gallu penderfynu ar lawer o'r manylion i sicrhau bod y Clwb Gwaith yn diwallu anghenion y bobl leol.

Cofiwch mai dim ond awgrymiadau yw'r rhain ynghylch sut y gellid rhedeg Clwb Gwaith.

## **1 Dod o hyd i leoliad**

Byddai lleoliad sy'n rhad ac am ddim yn berffaith. Dylai fod yn rhywle heb ormod o ymyriadau, efallai adeilad cyhoeddus fel llyfrgell, canolfan gymunedol neu fan addoli. Gall unrhyw gydag ystafell/ardal o faint rhesymol fod yn addas.

Gallech hefyd ofyn i'r cyngor lleol neu gyflogwr lleol am gael defnyddio ystafell ar eu safle i gynnal eich cyfarfodydd. Dylech bwysleisio nad yw Clybiau Gwaith yn gwneud elw a'u nod yw darparu cymorth ychwanegol i geiswyr gwaith lleol, gan eu helpu

i ddod o hyd i waith. Efallai y byddwch hefyd am wneud rhywfaint o waith ymchwil ar gyflogwyr lleol i nodi a oes gan unrhyw rai ohonynt bolisiâu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol neu a ydynt eisoes yn ceisio cefnogi'r gymuned.

Gallai cefnogi Clwb Gwaith lleol fod yn gydnaws â'r math hwn o bolisi ac mae'n debygol mai'r cyflogwyr hyn fydd y rhai mwyaf parod i ymateb os gofynnir iddynt am gymorth.

Efallai y byddech am ystyried a fydd angen unrhyw offer TG arnoch wrth ddod o hyd i leoliad.

## **2 Dechrau arni**

- Ar y dechrau bydd cyfarfodydd rheolaidd yn bwysig i aelodau ac arweinwyr a byddant yn helpu i feithrin cydberthynas a gweithio fel tîm. Unwaith y bydd y Clwb Gwaith wedi'i sefydlu, gallai'r grŵp gyfarfod yn llai aml a defnyddio e-bost neu ffôn i gadw mewn cysylltiad
- Efallai y byddech hyd yn oed yn ystyried y posibilrwydd o sefydlu fforwm ar-lein ar gyfer eich Clwb Gwaith er mwyn cadw mewn cysylltiad.

Gallai'r gwaith o gydlynu'r grŵp gynnwys trefnu cyfarfodydd, hyrwyddo'r Clwb Gwaith a chadw pethau i fynd. Gallai un person yn y grŵp fod yn gydgyssylltydd neu gellid rhannu neu gylchdroi'r rôl. Er enghraifft, efallai y byddai cyflogwr lleol yn cynnal cyfarfod o'r Clwb Gwaith ar ei safle gan arwain yr wythnos arbennig honno.



# Sut galla i sefydlu Clwb Gwaith?

## 3 Paratoi rhaglen o weithgareddau

**Bydd pob Clwb Gwaith yn gweithredu mewn ffordd arbennig yn ôl anghenion y gymuned mae'n ei chefnogi. Bydd gweithio gyda phartneriaid a chyfranogwyr lleol yn eich galluogi i fanteisio ar ddealltwriaeth ac adnoddau lleol wrth ddatblygu Clwb Gwaith sy'n diwallu anghenion yr aelodau a'r farchnad lafur leol.**

Dim ond rhywfaint o syniadau yw'r rhain ynghylch sut y gallech fod am redeg sesiwn Clwb Gwaith, ond cofiwch mai anghenion y cyfranogwyr a'r gymuned leol ddylai lywio'r ffordd y cânt eu rhedeg.

- Dylai'r clwb gyfarfod er mwyn galluogi aelodau i rannu profiadau chwilio am swyddi a gyrfaoedd ei gilydd, ac annog ei gilydd wrth iddynt chwilio am swydd. Gellid strwythuro'r cyfarfodydd fel a ganlyn:

**Dechrau:** bydd yr aelodau yn treulio rhai munudau yn rhannu canlyniadau a chyflawniadau'r chwiliad gwaith yn ystod yr wythnos flaenorol.

**Canol:** bydd yr aelodau yn gofyn am gymorth gan ei gilydd mewn meysydd penodol, a allai arwain at sesiwn â thema (e.e. sgiliau cyfweliad, ysgrifennu CV, gwisgo i lwyddo, ac ati).

**Diwedd:** bydd yr aelodau yn pennu nod i'w gyflawni erbyn y cyfarfod nesaf (e.e. ychwanegu deg cyswllt at eu rhestr rhwydwaith, ailysgrifennu CV, gwneud dau ffug gyfweliad, ymchwilio i dri darpar gyflogwr newydd).

Dim ond un enghraifft o strwythur cyfarfod posibl yw hwn. Bydd Clybiau Gwaith unigol yn datblygu eu strwythurau eu hunain a allai newid dros amser i

adlewyrchu anghenion y cyfranogwyr a'r gymuned ehangach. Mae amrywiaeth eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau y gallech fod yn awyddus i'w hymgorffori yn eich Clwb Gwaith. Dyma nifer o syniadau y gallech fod am eu hystyried:

### ■ Ffair Swyddi

**Nod:** Dyma ffordd dda o godi ymwybyddiaeth leol o'r Clwb Gwaith, dod â phawb sy'n ymwneud â chefnogi'r Clwb Gwaith at ei gilydd a denu nifer dda o gyfranogwyr. Gellid cynrychioli amrywiaeth o sefydliadau lleol, gan gynnwys y Ganolfan Byd Gwaith, sefydliadau Addysg Bellach, grwpiau a chyflogwyr y sector gwirfoddol i enwi ond rhai. Byddai hyn yn rhoi amrywiaeth o gymorth a chyfleoedd i gyfranogwyr a'r cyfle i ymgysylltu â'r grwpiau hyn mewn awyrgylch cartrefol. Gallai hwn fod yn ymarfer defnyddiol i fesur y lefel o gefnogaeth ar gyfer y Clwb Gwaith ymhlith grwpiau a sefydliadau lleol a fyddai am gymryd rhan. Gall hefyd annog hwy i gymryd rhan yn y broses o gynnal y Clwb yn y dyfodol neu arwain sesiynau neu hyd yn oed sesiynau sy'n benodol i sector a/neu sesiynau â thema.

### ■ Cynllunio'r Daith Gwaith

**Nod:** Gweithdy i helpu pobl i gynllunio a meddwl o ddifrif am eu taith yn ôl i'r gwaith. Bydd aelodau yn gosod nod neu ffocws penodol ar gyfer eu chwiliad gwaith i weddill y grŵp ac yn siarad am y math o swydd maent am ei chael. Byddant yn siarad â'i gilydd er mwyn eu helpu i ddadansoddi eu sgiliau, eu galluoedd a'u diddordebau eu hunain ac yna'n cynllunio sut y byddant yn casglu gwybodaeth am y cyflogwyr maent am gysylltu â hwy.

**Dewisol:** Gallai fod yn werth cysylltu â sefydliad gwirfoddol lleol sydd â phrofiad o gefnogi'r rheini sydd allan o'r farchnad lafur er mwyn helpu i hwyluso'r sesiwn hon.

### ■ Sgiliau Cyfweld a Ffug Gyfweiliadau

**Nod:** Gwella sgiliau meddal (e.e. ymddangosiad a chyfathrebu). Gallai hyn gynnwys awgrymiadau ar baratoi ar gyfer cwestiynau, dangos agwedd hyderus, delio â chwestiynau anodd, a chyflwyno eich hun mewn ffordd gadarnhaol. Mae adborth onest ond cadarnhaol yn rhan hollbwysig o'r broses o ffug gyfweiliad. Gall y grŵp werthuso ymatebion gyda'i gilydd a cheisio meddwl am rai gwell.

**Dewisol:** Mae gan gyflogwyr lleol arbenigedd yn y maes hwn, gan eu bod yn cyfweld ag ymgeiswyr ar gyfer swyddi lleol yn rheolaidd. Gallai fod yn werth gofyn a fyddent yn gallu rhannu'r arbenigedd hwn â'r Clwb Gwaith. Bydd gan gyflogwyr syniad clir o'r hyn maent yn chwilio amdano mewn ymgeisydd llwyddiannus mewn cyfweiliad, a gallai'r cipolwg hwn fod yn amhrisiadwy i'r rheini sy'n chwilio am waith a'u helpu i fagu hyder mewn sefyllfa cyfweiliad.

### ■ Gweithdy CV

**Nod:** Rhoi cyngor ac arweiniad ar y prif egwyddorion wrth baratoi llythyr eglurhaol a CV cryf. Gellir cynnig cyngor ar lenwi ffurflenni cais hefyd. Gellid cynnig hyn i'r grŵp cyfan neu fel cymorth un-i-un.

**Dewisol:** Ymgysylltu â chyflogwyr lleol neu sefydliadau gwirfoddol lleol a allai helpu i ddarparu'r math hwn o help.

### ■ Gweithdy sgiliau TG

I ddarparu sgiliau TG a chwiliad gwaith. Rydym yn byw mewn oes gynyddol ddigidol a gall sgiliau TG sylfaenol fod yn adnoddau hanfodol wrth helpu pobl i ddychwelyd i'r farchnad lafur. O sefydlu cyfrif e-bost i ddysgu sut i wneud cais am swyddi ar-lein, gallai llawer o gyfranogwyr gael budd o'r math hwn o gymorth.

Bellach, dim ond ar-lein y caiff llawer o swyddi eu hysbysebu a dim ond drwy ddefnyddio systemau ar-lein y mae rhai cwmnïau yn recriwtio.

Gallai gweithdy ar lunio CV, cymorth wrth lunio CV a llythyr eglurhaol ar y cyfrifiadur y gellir eu hatodi at geisiadau ar-lein fod yn ddefnyddiol i geiswyr gwaith. Mae chwilio am gyfleoedd swyddi ar-lein yn gyflym ac yn effeithiol; gallai'r gweithdy hwn hefyd ganolbwyntio ar ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfranogwyr i ddefnyddio adnoddau chwilio am swyddi ar-lein.

### ■ Sgyrsiau am Yrfaeodd

**Nod:** Cynnig cyfle i glywed gan siaradwyr gwadd yn uniongyrchol am brofiadau ar weithio mewn meysydd amrywiol. Bydd hyn yn helpu i wella lefelau er mwyn magu hyder ac annog y broses o bennu nodau a gallai unrhyw un sydd mewn gwaith ar hyn o bryd, ei ddarparu. Gallai cyflogwr roi cipolwg o sector penodol tra gallai ceiswyr gwaith uniaethu o bosibl â rhywun sydd newydd gael swydd yn ddiweddar a gall rannu ei brofiad o ddychwelyd i'r farchnad lafur. Gallai hwn hefyd fod yn gyfle da i gael cyngor ar drafod cyflog, CVs, llythyrau eglurhaol, technegau cyfweld ac ymchwilio i gwmnïau.

### ■ Cyfleoedd Gwirfoddoli

**Nod:** I wneud pobl yn ymwybodol o fanteision posibl ennill profiad drwy wirfoddoli, sy'n aml yn darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau sylfaenol a gallant helpu i gryfhau CV.

**Dewisol:** Efallai y bydd sefydliadau gwirfoddol lleol yn croesawu'r cyfle i arddangos eu gwaith i'r Clwb Gwaith ac i ddangos y manteision posibl o wirfoddoli. Efallai yr hoffech hefyd gyfeirio gwirfoddolwyr at gyfleoedd a gynigir drwy'r Ganolfan Byd Gwaith.

# Sut galla i sefydlu Clwb Gwaith?

## ■ Gwisgo i Lwyddo

**Nod:** Mae hwn yn gyfle ar gyfer sesiwn ysgafnach i amlygu sut y gall yr hyn rydych yn ei wisgo wella hyder a rhagolygon swydd. Gellid canolbwyntio ar ddewis a rhannu syniadau ar ddillad cyfweliad.

Ymhlith y gweithgareddau eraill ar gyfer y Clwb Gwaith mae'r canlynol:

- Gallai'r aelodau ddod â'u CVs i mewn, er mwyn gwerthuso CVs ei gilydd ac er mwyn eu cyfnewid a'u dosbarthu pan fydd cyfleoedd yn codi.
- Gofynnwch i bob aelod ymchwilio i agwedd ar chwilio am swydd a rhannu'r syniadau gorau â'r grŵp.
- Gallai'r aelodau egluro i'r grŵp pa wefannau gyrfa sy'n ddefnyddiol iddynt a pham.
- Gallai'r aelodau brofi eu dealltwriaeth o dechnegau chwilio am swydd drwy wneud profion ar-lein ar gyfer ceiswyr swyddi.
- Mae cyfoeth o wybodaeth ar gael ar y rhyngwrwyd y gellid ei defnyddio i gefnogi unrhyw un o'r gweithgareddau a amlinellir uchod neu'n wir, unrhyw weithgareddau eraill y gellid eu cynnig i gyfranogwyr. Wrth baratoi sesiynau, gallai fod yn fuddiol chwilio am syniadau newydd, cyngor arbenigol a chanllawiau cyffredinol.
- Datblygu Clybiau Gwaith yn benodol ar gyfer pobl rhwng 16 a 24 oed i ganolbwyntio ar y materion arbennig sy'n wynebu ceiswyr gwaith ifanc, yn enwedig y rheiny sydd ag ychydig o brofiad gwaith, os o gwbl. Gall hyn gynnwys cefnogi pobl ifanc i wneud dewisiadau i ymgymryd â phrentisiaethau neu ddechrau gwaith gyda hyfforddiant neu brofiad gwaith.

## 4

## Cael help gan sefydliadau a gwirfoddolwyr eraill

- Gallai meithrin cysylltiadau â sefydliadau eraill, er enghraifft y Ganolfan Cyngor ar Bopeth leol, Siambr Fasnach neu grwpiau cynrychioladol eraill, wella cynnig y Clwb Gwaith. Gallech gysylltu â rheolwyr sefydliadau lleol i weld p'un a fyddai ganddynt ddi-ddordeb mewn cymryd rhan yn y Clwb Gwaith. Efallai y byddant yn gefnogol iawn o unrhyw fenter gweithredu cymdeithasol sydd wedi'i anelu at gael pobl yn ôl i mewn i waith.
- Gallai unrhyw bobl leol rydych yn eu hadnabod sydd â phrofiad proffesiynol neu brofiad busnes fod yn ddefnyddiol iawn wrth sefydlu'r Clwb Gwaith neu drwy fod yn siaradwyr gwadd neu drwy helpu gyda ffug gyfweiliadau, awgrymiadau ar gyfer llunio CV a themâu eraill ar gyfer sesiynau.
- Efallai y bydd busnesau lleol yn awyddus i gefnogi'r Clwb Gwaith, naill ai drwy ddarparu siaradwyr, ystafell gyfarfod neu, os yw'n briodol, teithiau o gwmnïau. Gallent roi cipolwg gwerthfawr i fyd gwaith yn eu sector hwy.
- Gallai Clybiau Gwaith eraill fod yn ffynonellau gwybodaeth defnyddiol hefyd a gallent hefyd eich helpu i ddatblygu un. Bydd rhannu arfer gorau yn cyfrannu at y broses o ddatblygu rhwydwaith cryf o Glybiau Gwaith.

## 5 Paratoi cynllun marchnata lleol

**Ynghyd â'r canllaw hwn, mae rhai templedi a allai fod yn ddefnyddiol ar gyfer hyrwyddo'r Clwb Gwaith.**

- Mae ateb cadarnhaol i ddiweithdra lleol yn debygol o ddenu llawer o sylw gan y papurau newydd. Gallech siarad â newyddiadurwr eich papur newydd lleol (gan gynnwys y rhai am ddim) ynghylch yr hyn rydych yn ceisio ei gyflawni a rhoi digon o rybudd ymlaen llaw iddynt pryd y byddwch yn lansio'r Clwb Gwaith. Gallai fod yn fuddiol awgrymu eu bod yn cyhoeddi'r stori ar yr un diwrnod y maent yn cyhoeddi hysbysebion swyddi gwag.
- Efallai y byddwch am ddefnyddio'r templed ar gyfer datganiad i'r wasg (a gyflenwir gennym), a meddwl mor eang â phosibl i ble y gallech ei anfon. Mae papurau newydd lleol, gan gynnwys y rhai am ddim, yn fan cychwyn da.
- Targedwch hysbysfyrddau a gwefannau lleol oherwydd gallent fod yn lle da i gyhoeddi gwybodaeth am eich Clwb Gwaith am ddim, yn union fel hysbysfyrddau mewn siopau lleol ac archfarchnadoedd.
- Gallech feddwl am y lleoedd y gallai pobl ddi-waith fynd ac ystyried ceisio cael eich deunyddiau cyhoeddusrwydd i'r lleoedd hynny. Bydd busnesau, llyfrgelloedd, siopau a siopau prydau ar glud lleol yn aml yn caniatáu i chi roi posteri i fyny am ddim os ydych yn rhedeg menter gymunedol.

## 6 Dod o hyd i aelodau drwy rwydweithiau eraill

**Gall colli swydd hyd yn oed wneud i'r person mwyaf hyderus deimlo'n agored i niwed. Efallai na fydd ymuno â Chlwb Gwaith yn rhywbeth hawdd i lawer o bobl. Mae annog pobl drwy rwydweithiau personol a rwydweithiau busnes yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddenu cyfranogwyr i ddechrau.**

Bydd y Ganolfan Byd Gwaith hefyd yn gwneud pobl a allai gael budd yn ymwybodol o Glybiau Gwaith yn eu hardal felly bydd yn fuddiol cadw mewn cysylltiad â hwy ynghylch y manylion, fel y lleoliad a'r amseroedd. Hyd yn oed os bydd y Clwb Gwaith ond yn dechrau gydag ychydig o bobl, gallai dyfu'n raddol ar lafar a thrwy farchnata lleol parhaus. Gallai meithrin cysylltiadau â'r Ganolfan Byd Gwaith, y Ganolfan Cyngor ar Bopeth a sefydliadau lleol eraill ddarparu ffrwd gadarn o aelodau'r Clwb Gwaith.

Dylai'r gwasanaeth a gynigir gan Glybiau Gwaith adlewyrchu'r galw yn y gymuned ar gyfer y math hwn o gymorth. Bwriad Clybiau Gwaith yw darparu cymorth ychwanegol i'r hyn a gynigir yn barod gan y Ganolfan Byd Gwaith ac asiantaethau a sefydliadau eraill. Y nod yw cefnogi'r gymuned a diwallu ei hanghenion ac efallai y bydd y rhain yn newid dros amser.

## 7 Cynnal y Clwb Gwaith

**Unwaith y bydd aelodau eich Clwb Gwaith wedi meithrin cydberthnasau, gallai arweinyddiaeth ddod o blith y grŵp. Efallai y bydd arweinwyr naturiol yn amlwg a gellir trosglwyddo'r arweinyddiaeth pan fydd aelodau yn gadael i ddechrau swyddi newydd. Gall rôl y trefnydd gynnal momentwm a chodi ymwybyddiaeth o'r Clwb Gwaith yn barhaus er mwyn parhau i ddenu aelodau newydd.**



# Ble i gael rhagor o help?

Os oes gennych ddiddordeb mewn sefydlu Clwb Gwaith yn eich ardal neu'n teimlo y gallech gyfrannu at ddatblygiad un, ac os hoffech gael gwybodaeth bellach, yna cysylltwch â ni:

## Dwyrain a Gorllewin Canolbarth Lloegr,

### Dwyrain Anglia

**Candice Danleigh**

☎ 07971 995078

✉ [candice.danleigh@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:candice.danleigh@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

### Gogledd-orllewin

**Jackie Mason**

☎ 07795 224513

✉ [jackie.mason@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:jackie.mason@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

### Yr Alban

**Stephen McConnachie**

☎ 0141 636 8351

✉ [stephen.mcconnachie@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:stephen.mcconnachie@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

## Gogledd-ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog

**Sheila Stowers**

☎ 0191 215 2077

✉ [sheila.stowers@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:sheila.stowers@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

## Llundain a'r Siroedd Cartref

**Derek Harvey**

☎ 0207 342 3854

✉ [derek.harvey@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:derek.harvey@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

### Cymru

**Huw Thomas**

☎ 01443 484753

✉ [huw.thomas2@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:huw.thomas2@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

### De Lloegr

**Lynda Jones**

☎ 01483 442550

✉ [lynda.jones4@jobcentreplus.gsi.gov.uk](mailto:lynda.jones4@jobcentreplus.gsi.gov.uk)

**jobcentreplus**  
**canolfanbydgwaith**

Department for Work and Pensions  
Adran Gwaith a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan  
yr Adran Gwaith a Phensiynau  
2012  
<http://www.dwp.gov.uk/cymraeg/>